**CYPE(6)-04-23 – Papur i'w nodi 7**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMSS/xxxx

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
jayne.bryant@senedd.cymru

19 Ionawr 2022

Annwyl Jayne,

Diolch yn fawr am eich llythyr. Rwy'n falch o allu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith arfaethedig o adolygu a diweddaru'r cynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu gofal plant, gwaith chwarae a'r blynyddoedd cynnar.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i adolygu'r Cynllun cyfredol er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr ymrwymiadau gwreiddiol. Yn ogystal â hynny, mae gwaith yn cael ei wneud i asesu cyfeiriad a gweledigaeth y Cynllun er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiadau yn y Cynllun a ddiweddarwyd yn ystyried effaith y pandemig, yr argyfwng costau byw, a materion recriwtio a chadw staff. Bydd y diweddariad hwn hefyd yn ceisio sicrhau bod y Cynllun yn adlewyrchu ein dyheadau sy'n datblygu o ran addysg a gofal plentyndod cynnar a'n gweledigaeth o gael sector amrywiol a chynhwysol.

Disgwylir y cyhoeddir y diweddariad a'r adolygiad llawn yng ngwanwyn 2023. Byddwn yn rhannu'r Cynllun unwaith y bydd wedi ei gyhoeddi gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

Julie Morgan

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services